# CRYNODEB CYFARFOD

## Cyngor Cymuned Llanycil

## Cyfarfod Nos Fawrth, Medi 27ain am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol: Euros Puw (cadeirydd), Huw Charles, Gwynfryn Williams, Arwel Davies, Geraint Jones, Rhys Jones a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Jean Roberts, Rhys Richards, Geraint Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Croesawyd Rhys Jones i'w gyfarfod cyntaf. Derbyniwyd llythyr gan Geraint Davies yn egluro ei ddymuniad i ymddiswyddo o'r Cyngor. Cytunwyd yn gyntaf i ofyn iddo iddo ail ystyried ond os yr oedd yn dal yn dymuno i adael gofynnwyd i'r clerc hysbysu Cyngor Gwynedd a chymryd y camau priodol ar gyfer ethol aelod newydd.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Gorffennaf 13eg 2022) - **CYMERADWYWYD.**

ii) Datgan Buddiant **- DIM**

<u>iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.</u>
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Gweithdai Ardal Ni 2035 **– CAFWYD ADRODDIAD GAN EUROS PUW A ARWEL DAVIES A OEDD WEDI MYNYCHU'R GWEITHDY.**
c) Cynllun Hyfforddiant **– CYMERADWYWYD Y CYNLLUN YR OEDD Y CLERC WEDI EI BARATOI.**

## <u>iv) Gohebiaeth</u>

<u>a) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Swyddog Cefnogi Cymunedau newydd.
ii) Gwybodaeth am y gwasanaeth Tîm Tacluso Ardal Ni.
iii) Rhaglen waith yr adran priffyrdd a bwrdeistrefol.

<u>b) Llywodraeth Cymru.</u>
i) Ymgynghoriad Treth Cyngor Tecach.
ii) Rhaglen cyfleusterau cymunedol – cynllun grant cyfalaf.
iii) Adran 6 y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau **- CYTUNWYD I DDEFNYDDIO'R WYBODAETH WRTH ADOLYGU EU POLISI YN DDIWEDDARACH YN Y FLWYDDYN.**

<u>c) Amrywiol.</u>
i) Dwr Cymru - diweddariad ar y gwaith hanfodol sydd angen ei gyflawni yng nghronfa ddŵr Llyn Celyn.
**CYTUNODD GERAINT JONES A HUW CHARLES FYNYCHU'R SESIWN FRIFFIO.**
ii) Parc Cenedlaethol Eryri – cyfarfodydd blynyddol cynghorau cymuned a thref gyda'r Parc.
iii) Triathlon Y Bala 2022 – diweddariad.
iv) Cyfoeth Naturiol Cymru - diweddariad gwaith diogelwch ar gronfa ddŵr Llyn Tegid.
v) Daily Post – cais am newyddion lleol.

**<u>v) Ceisiadau Cynllunio</u>**
ii) Ymgynghoriad Cyd-ymgeisio Llyn Celyn.

**NID OEDD Y CYNGHORWYR YN YMWYBODOL O UNRHYW WRTHWYNEBIAD LLEOL I'R CAIS.**

**<u>vi) Materion Ariannol</u>**
a) Derbyniadau - Ail-randal y Praesept £2,250 - **CYDNABUWYD.**
b) Taliadau - Gyngor Gwynedd (archwiliad mewnol 2021/22), Archwilio Cymru (archwiliad allanol 2020/21), Cyflog a chostau'r clerc (Gorff-Medi) & TWE - **CYMERADWYWYD**
c) Archwilio Cymru – ymgynghoriad ar raddfeydd ffioedd 2023-24.

ch) Trefniadau talu ar lein - **CYTUNWYD I SYMUD I FANCIO AR-LEIN A ARWYDDWYD Y FFURFLEN BANC PERTHNASOL GAN OSOD UCHAFSWM O £500 AR GYFER POB TALIAD.**
d) Ceisiadau ariannol – Capel Talybont, Cerebral Palsy Cymru a Gofal Canser Tenevus **- CYTUNWYD I DDILYN Y DREFN ARFEROL A'U TRAFOD YN EIN CYFARFOD YM MIS MAWRTH.**

**vii) Materion lleol.**
a) **CYTUNWYD I ANFON Y CWYNION I'R ADRANNAU PERTHNASOL.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH TACHWEDD 8FED YN NEUADD PARC.**